**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW**
**RHAGFYR 17EG 2024 AM 7:30YH**
**CYNHALIWYD YNG NGWYTHERIN**

## 1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

**1.1** Croesawyd pawb gan Clwyd Roberts (CR)

**1.2** Presennol: Einir Williams (EW), Ann Vaughan (AV), Diane Roberts (DR), Sara Thomas (ST), Gwydion Jones (GJ), Euros Williams (EUW), John Harris (JH), Austin Roberts (AR) & Catrin Griffiths (Clerc, CWG)

**1.3** Ymddiheuriadau: Jane Roberts (JR), Myrddin Davies (MGD),

## 2 DATGANIAD DIDDORDEB

Datganodd GJ ddiddordeb gydag eitem 5.1.

## 3 COFNODION TACHWEDD 27AIN 2024 I'W GWIRIO

Cynigwyd yn gywir gan AV ac eilwyd gan JH.

## 4 MATERION YN CODI

**4.1** Eglurodd CWG nad oedd wedi llwyddo i gael gafael ar Glerc Pentrefoelas er trio ambell waith i drafod sut i hawlio T.A.W yn ôl ein hunain. Dywedodd DR y byddai hi'n ceisio cysylltu â hi hefyd. Dywedodd EW fod ganddi daflen yn ymwneud â'r meddalwedd *Absolute Accounting* y gallai rannu gyda CWG i helpu. Cafwyd trafodaeth nad yw'r T.A.W dal wedi ei hawlio gan y cyfrifydd a bod amser yn rhedeg allan. Dywedodd CWG ei bod dal i aros am ddogfennau gan y cyfrifydd a oedd fod i gael eu cyflwyno gyda'r awdit ym mis Mai. Penderfynwyd y dylai CR gysylltu gyda'r cyfrifydd i ofyn am gael gwneud hyn a hefyd i ofyn am dystysgrif T.A.W fel bod y clerc yn gallu dechrau ei hawlio yn lle.

**4.2** Pasiwyd y dyddiadau cyfarfodydd am 2025 yn y pwyllgor diwethaf ond wrth i CWG archebu'r ystafelloedd am y flwyddyn daeth yn amlwg y byddai cyfarfod mis Rhagfyr yn glanio'r un noson a'r chwist blynyddol y flwyddyn nesaf hefyd felly penderfynwyd ei newid i'r noson gynt. Gofynnodd CR am gael symud cyfarfod mis Mai wythnos yn gynt hefyd fel na fyddai'n glanio'n ystod yr hanner tymor ac roedd pawb yn cytuno.

**4.3** Mae'r bagiau baw ci wedi cyrraedd a rhannwyd rhai fel bod JR yn gallu eu cael.

**4.4** Penderfynwyd y dylid trafod gwneud lle parcio i'r anabl yn fwy amlwg ym maes parcio Canolfan Addysg Bro Cernyw ym mhwyllgor y ganolfan

**4.5** Cafwyd 2il sesiwn y Clwb Garddio'r wythnos gynt a oedd yn noson lwyddiannus arall. Diolchwyd i bawb am eu cymorth gyda'r noson a phenderfynwyd y dylid ceisio annog aelodau'r clwb i drefnu gweddill sesiynau'r flwyddyn. Rhannwyd taflenni yn ystod y noson yn sôn am rai cynghorau Sir sydd yn trefnu compost cymunedol yn hytrach na'i gasglu'n wythnosol a rhannwyd y syniad yma gydag AR.

## 5 CEISIADAU CYNLLUNIO

[GJ yn gadael yr ystafell]
**5.1** Cais rhif 0/52167 Hendre Llwyn Y Maen LL22 8TE
Pawb yn cymeradwyo.
[GJ yn dychwelyd].

## 6 MATERION CYNGOR

**6.1** Mae CWG wedi llenwi holiadur ar ran y cyngor sef Arolwg Cymunedol LPIP 2024 yn ystod y mis.

**6.2** Fe wnaeth CWG lenwi dogfen i'r IRPW yn cadarnhau na wnaeth unrhyw gynghorydd dderbyn unrhyw lwfans ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023-24. Roedd y Cyngor Cymuned wedi eu he-bostio ar 13.5.24 yn barod ac wedi derbyn cadarnhad eu bod wedi ei dderbyn.

**6.3** Daeth e-bost yn gofyn a fyddai'r Cyngor Cymuned yn hoffi copi o'r Gofrestr Etholwyr a phenderfynwyd i CWG yrru neges yn gofyn am gopi ohono.

**6.4** Roedd CWG wedi cael ymholiad yn ystod y mis gan aelodau o'r cyhoedd a oedd eisiau gosod ffens o flaen eu heiddio i'w amddiffyn rhag traffig ac roeddynt yn gofyn a oeddynt yn cael gwneud hyn neu oedd angen caniatâd cynllunio. Cysylltodd CWG â AR i ofyn cyngor a'r ateb oedd mai fwy thebyg ni fyddent angen caniatâd cynllunio ond y peth gorau iddynt wneud fyddai e-bostio *ERF enquiries.*

**6.5** Dywedodd DR fod y person sydd gyda'r gwaith papur yn ymwneud ag eitem 7.7 o'r cyfarfod diwethaf heb fod adra a'i bod am eu cael yn y flwyddyn newydd.

## 7 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

**7.1** Siop fach - mae ganddynt ganiatâd cynllunio tan 2027. Nid ydynt wedi cychwyn ar y gwaith ac ni all y cyngor orfodi dim byd o ran gwella'r adeilad gan fod ganddynt ganiatâd cynllunio. Os byddai ychwaneg o achosion o lechi yn disgyn i lawr yna byddai'r cyngor yn gallu gwneud rhywbeth wedyn. Gofynnodd CR os yw'r cyngor wedi camddeall mai'r *Stag yard* ydi o gan nad oes caniatâd cynllunio ar y siop fach? Dywedodd AR y byddai'n holi ond yn y cyfamser gofynnodd i CWG gysylltu gyda ERF i ddweud ei fod yn fater o iechyd a diogelwch gan y gallai lechi ddisgyn i'r ffordd fawr. Ategodd DR drwy ddweud fod plant ysgol yn ymgynnull yno i aros am dacsis a bysus.

**7.2** Mae AR wedi siarad gyda'r aelod o'r cyhoedd a gafodd car yn taro ei braich wrth ymyl yr Eglwys ac wedi trafod paentio llinellau gwyn ar y ffordd.

**7.3** Bydd y llwybr cerdded heibio hen Dafarn y Bont yn gorfod cael ei gau oherwydd pryderon iechyd a diogelwch. Mae perygl i'r giât mochyn gael ei sgubo i ffwrdd yn dilyn y storm ddiwethaf ac mae'r llwybr wedi culhau. Bydd cais yn cael ei wneud am grant i'w atgyweirio ond ni ellir gwneud dim tan ar ôl mis Mawrth gan ei fod wrth ochr afon. Gellir gwneud cais ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ac felly ni fydd yn gallu ail-agor eto tan yr haf. Dywedodd DR fod aelod o'r cyhoedd sydd yn byw wrth ymyl wedi bwriadu rhoi cerrig wrth ochr yr afon i stopio'r afon fwyta i mewn i'r tir ond roedd y perchennog wedi gwrthod mynediad i'r tir.

**7.4** Dŵr yn Nhy'n Bryn a Phandy Tudur - dywedodd AR y bydd yn ffonio EW pan fydd yn mynd o gwmpas efo Emyr iddi hi ddangos y sefyllfa iddo.

**7.5** Mieri Glan Collen wedi eu torri gan AR.

**7.6** Nyth y Wennol - dywedodd AR fod y cyngor wedi ymchwilio ac maent wedi stopio cadw cŵn erbyn hyn. Mae gosod y garafán yno yn ddatblygiad wedi ei ganiatáu gan eu bod yn gwneud gwaith ar y tŷ.

**7.7** MUGA - mae'r cyngor wedi ariannu cwmni i wneud arolwg o beth sy'n bosib ei wneud gydag ef. Un syniad yw cae bob tywydd 3G/4G ond os yw disgyblion ysgol am ei ddefnyddio yna byddent angen trenyrs ac nid esgidiau ysgol. Opsiwn arall yw gwneud fel 2 safle arall o fewn y sir sef Ysgol Nant y Groes sydd wedi cael cae 4G ac Ysgol Pen y Bryn sydd gydag arwyneb tebyg i dywod. Maent yn addas i bob math o chwaraeon ond nid yn addas iawn i bêl-droed. Maent am brisio'r ddau opsiwn i'r adran addysg wedyn bydd angen penderfynu pa un a sut y bydd yn

bosib ei ariannu. Gofynnodd JH os ydynt yn bwriadu rhoi llifoleuadau? Atebodd AR y bydd angen rhai newydd LED sydd yn well i'r amgylchedd yn cael eu gosod yno.

**7.8** Tir tu ôl i'r cae bob tywydd - gofynnodd AR wrth DR os allai plîs gael copi o'r gwaith papur sy'n dangos pwy sy'n berchen arno gan nad yw eisiau gwastraffu dim mwy o amser. Dywedodd DR y byddai wedi cael copi yn gynnar yn y flwyddyn newydd iddo.

Dywedodd AR ei fod wedi cael e-bost arall gan yr adran asedau a'u bod yn edrych mewn i godi tai ar y safle. Mae AR wedi ymateb iddynt gan ddweud fod yn rhaid cael ymgynghoriad gyda'r gymuned a bod rhandiroedd hefyd yn bosibilrwydd. Mae'r Cyngor Sir yn gofyn faint o ddiddordeb sydd yna yn y gymuned o ran rhandiroedd ac os oes syniad ar gyfer defnydd arall? Dywedodd DR fod cae bowlio yn syniad da a dywedodd AV fod sôn am randiroedd wedi bod o'r blaen ond nad oedd gymaint â hynny o ddiddordeb gan ei fod yn ardal wledig. Dywedodd AR fod angen gofyn wrth bobl beth fuasen nhw'n hoffi ei weld ac efallai trefnu cyfarfod cyhoeddus. Mae AR wedi ymateb i'r e-bost yn dweud ei fod am ei drafod yn y Cyngor Cymuned. Dywedodd JH y dylid ymgynghori gyda'r Clwb Pêl-droed i weld beth fuasen nhw yn ei hoffi yno e.e. ystafelloedd newid newydd gan eu bod ar hyn o bryd yn defnyddio'r rhai yn yr ysgol. Penderfynwyd i gael gweld y papurau o ran pwy sy'n berchen ar y darn o dir yn y lle cyntaf cyn ei drafod ymhellach.

Dywedodd DR fod y potyn blodau a gafodd ei dorri gan y cyngor sir wedi ei dorri ym mis Mai 2024 a'i bod yn meddwl ei fod wedi digwydd ar Fai 21$^{ain.}$

## 8 MATERION ARIANNOL

**8.1** Praesept 2025-26 - defnyddiwyd y daenlen a oedd wedi ei rannu gyda'r cynghorwyr gyda'r gwariant hyd yma am eleni i benderfynu ar y praesept nesaf a bydd angen i CWG adrodd hyn yn ôl i'r Cyngor Sir.
**8.2** Hysbysiad taliad praesept Rhagfyr 2024 - £3408.

## 9 GOHEBIAETH

Wedi gyrru ymlaen i bawb er gwybodaeth:
**9.1** Gwybodaeth am drafodaeth ar lein gydag *Age Cymru* am wahaniaethu ar sail oedran yng Nghymru.
**9.2** Cadw Cymunedau'n Gynnes: Sut all Gynghorau Helpu gan Un Llais
**9.3** Arolwg cydlyniad cymunedol gan y Tŷ Cyffredin
**9.4** Manylion am Wobrau Cenedlaethol Un Llais Cymru 2025
**9.5** Dyddiadau hyfforddiant mis Ionawr i Fawrth gan Un Llais Cymru
**9.6** Ymgynghoriad ynglŷn â newid i reolau claddu yng Nghymru a Lloegr - JH yn codi os oes mynwentydd llawn yn yr ardal? Atebodd CR nad oes ac felly nid yw'n berthnasol i ni
**9.7** Gwobrau Cymunedol Uchel Siryf Clwyd 2025
**9.8** Arolwg o Etholaethau'r Senedd

## 10 BILIAU

**10.1** Bil am 3 focs o fagiau baw ci - £111.06
**10.2** Bil cyfieithu Enlli – £95
Cytunodd pawb i dalu'r uchod i gyd.

## 11 MATERION LLEOL

**GJ** Dywedodd fod dŵr yng ngheg ffordd Ty'n Ffynnon a bod angen glanhau'r draeniau. Ategodd ST ei fod yn ddrwg iawn. Penderfynwyd i CWG gysylltu ag AR i ofyn i Emyr am gael rhywun allan i'w lanhau.

**AV** Dywedodd bod dŵr ar y ffordd ym Mhetryal yn ddiweddar yn ddrwg iawn. Ychwanegodd EW ei fod yn tasgu ar y tŷ wrth ymyl wrth i gar yrru drwyddo. Bu i goeden ddisgyn yn y fynwent

yn Llangernyw yn dilyn y storm ddiweddar a threfnodd i Kevin ei chlirio gan ei fod yn fater o iechyd a diogelwch. Ychwanegodd fod ceir yn dal i or-yrru drwy bentref Llangernyw er y terfyn cyflymder o 20 m.y.a a'r arwyddion cyflymder. Dywedodd bod 2 gar (1 ohonynt yn goch) yn gyrru drwy'r pentref yn ddiweddar yn cynnwys pobl ifanc. Yn ogystal â hyn rhannodd y newyddion bod Amgueddfa'r Cwm wedi cael sied a biniau compost newydd.

**12 CYFARFOD NESAF**

Ionawr 29ain 2025 ym Mhandy Tudur.

Cyfarfod yn dod i ben am 21:20.

Cymerwyd y cofnodion gan CWG.